# Sgowtiaid (10½ - 14 mlwydd oed) - Nodiadau Arweinyddion

## Amcanion

–Gallu deall beth mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud a sut mae gwaith Aelodau'r Cynulliad yn effeithio arnynt hwy.
–Gallu trefnu ymweliad neu gwrdd â'u Haelodau Cynulliad a gallu cynnal trafodaeth am eu gwaith.

## Gofyniad 1

Gwybod pwy yw eich Aelodau Cynulliad lleol a sut i gysylltu â hwy. Trefnu i gwrdd ag un ohonynt i ddeall y sut mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio a beth yw eu cyfrifoldebau hwy.

## Adnoddau

–PowerPoint - Dw'i ddim yn wleidyddol!
–Taflen Paratoi i gwrdd â'ch Aelod Cynulliad
–Cwis Cynulliad Cenedlaethol Cymru - fersiwn papur neu PowerPoint.

## Cyflwyniad

Trafodaeth - Dw'i ddim yn wleidyddol! (PowerPoint – mae'n bosibl ei argraffu hefyd)

–Gofyn i'r grŵp a ydynt yn wleidyddol neu'n deall beth yw gwleidyddiaeth? (Sleid 1)
–Gofynnwch iddynt godi eu dwylo os ydynt yn cytuno â'r datganiadau yr ydych yn eu dangos iddynt a gofynnwch i rai ohonynt egluro pam eu bod yn cytuno neu'n anghytuno. (Sleid 2, 3 a 4)
–Eglurwch, yn dilyn y drafodaeth, eu bod, mewn gwirionedd yn deall gwleidyddiaeth a bod gwleidyddion yn trafod yr un pethau ag y maent hwy yn eu trafod bob dydd (Sleid 5)

## Prif Weithgaredd

Trefnwch i gwrdd ag Aelod Cynulliad - Gall y Sgowtiaid ddefnyddio gwefan y **Cynulliad** i ddarganfod eu pump Aelod Cynulliad. Bydd yr holl fanyliwn cyswllt sydd eu angen ar y wefan hon. Dywedwch wrth y Sgowtiaid i ddefnyddio'r daflen 'Paratoi i gwrdd â'ch Aelod Cynulliad' i'w helpu i ddarganfod gwybodaeth gyffredinol am yr Aelod Cynulliad ac am syniadau ynghylch y mathau o gwestiynau i'w gofyn.

Gofynnwch i'r Sgowtiaid baratoi taflen o gwestiynau yr hoffent eu gofyn mewn grwpiau i'r Aelod Cynulliad a threfnu pwy fydd yn gofyn pob cwestiwn yn ystod y cyfarfod.
Gwnewch Gwis Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn wrdd â'r Aelod Cynulliad i sicrhau eu bod yn gwybod y wybodaeth sylfaenol - mae copi papur ar gael neu fersiwn PowerPoint.

# Sgowtiaid (10½ i 14 mlwydd oed) - Nodiadau Arweinydd

## Amcanion

–Gallu deall cyfrfioldebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sut maent yn effeithio arnynt hwy.

## Gofyniad 2

Ymchwiliwch i un o gyfrifoldebau'r Cynulliad a rhoi adborth i weddill y Sgowtiaid.

## Adnoddau

–Llyfryn *Dy Gynulliad Di*
–Taflen Gêm murlun.
–Templed Cyflwyniad
–Cyfreithiau rhyfedd - fersiwn PowerPoint.
–Arwyddion GWIR neu GAU i'r wal - fersiwn PowerPoint.

## Cyflwyniad

Gofynnwch i'r Sgowtiaid edrych ar y murlun yn y llyfryn *Dy Gynulliad Di.* Sicrhewch eu bod yn deall bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am y pethau yn y murlun e.e. mae'n gyfrifol am ailgylchu, chwaraeon ac ysbytai (Rhestr o 20 cyfrifoldeb - tudalen 15 llyfryn *Dy Gynulliad Di*)

Cwblhewch y daflen gêm murlun. Gallwch roi gwobr fechan i'r grŵp/unigolyn sy'n cael y mwyaf o bwyntiau.

## Prif Weithgaredd

Gofynnwch i'r Sgowtiaid edrych ar y wybodaeth yn y lincs isod:

**www.cynulliadcymru.org** - cliciwch ar *Amdanon ni*

**www.cymru.gov.uk**- Gwefan Llywodraeth Cymru – cliciwch ar *Pynciau*

–Gofynnwch iddynt ganolbwyntio ar un o'r cyfrifoldebau a chreu cyflwyniad i roi adborth i weddill y Sgowtiaid (defnyddiwch y templed cyflwyniad).
–Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno'u cyflwyniad i'r Sgowtiaid eraill. Trafodwch yn hyn a ddysgwyd.

## I gloi

Cyfreithiau rhyfedd - fersiwn PowerPoint. Gan eu bod wedi bod yn trafod cyfrifoldebau a deddfau, bydd y dasg olaf hon yn cloi'r sesiwn mewn ffordd hwyliog. Gall y cyfreithiau fod yn wir neu'n gau unrhyw le yn y byd, nid yn y Deyrnas Unedig yn unig.

Trefnwch wal GWIR neu GAU a gofynnwch i'r Sgowtiaid redeg at eu hateb.